

Llais y Llan Awst 2013

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 30 Medi 2013
Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol
www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Dawnsio Zumba yn y Neuadd Goffa bob nos Fawrth 6.30 – 7.30

MOBI tu allan i'r Neuadd Goffa pob nos Fercher o 17.30 tan 19.30

Merched Y Wawr trydydd Nos Lun pob mis yn y Neuadd Goffa am 7:30

Urdd Merched Bronwydd ail Nos Llun bob mis Neuadd Bronwydd am 7.00

Awst 22 Nos Iau 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen Tafarn y Rheilffordd

Awst 25 Nos Sul 8.00 Cwiz Hollybrook

Awst 26 Dydd Llun 2.00 Barbiciw Prynawn Tafarn yr Rheilffordd

Awst 29 Nos Iau 8.00 Clwb Bowlio Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Neuadd Goffa

Medi 1 Dydd Sul 4.00 – 5.00 Helfa Drysor Neuadd Goffa £5

Medi 2 Nos Llun 7.30 Clwb Bowlio Tymor yn Cychwyn

Medi 3 Nos Mawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Medi 5 Nos Iau 7.30 Ymarfer Côr Cynwyl Elfed

Medi 6 Nos Gwener 7.00 Cyngerdd Mawreddog Neuadd Bronwydd Tocynnau £12

Medi 7 Nos Sadwrn 7.00 Noson Jas Gwili Railway Tocynau £32.50

Medi 10 Dydd Mawrth 12.15 Clinig 'Happy Feet' Neuadd Goffa

Medi 11 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio, Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Medi 14 Dydd Sadwrn 11.00 Cerdded Porthgain

Medi 14 Nos Sadwrn 7.30 Noson 'Murder Mystery' Gwili Railway Tocynnau £32.50

Medi 18 Nos Mercher 7.30 Sioe Ffasiwn Neuadd Goffa Tocynau £5

Medi 19 Nos Iau 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen Tafarn y Rheilffordd

Medi 20 Nos Gwener 7.00 Nebo Vestry

Medi 22 Dydd Sul 1.45 Cymdeithas Daroganwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Medi 29 Nos Sul 8.00 Cwiz Hollybrook

Hydref 1 Nos Mawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Hydref 4 Nos Gwener 6.00 Gŵyl gynhaef Eglwys Llanpumsaint

Hydref 4 Nos Gwener 7.45 Swper Cynhaef Neuadd Goffa Tocynnau £10

Hydref 5 Dydd Sadwrn 11.00 Cerdded Coopers/Nebo/Gwili Rheilffordd

Hydref 7 Dydd Llun 2.00 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd

Hydref 7 Dydd Llun 7.00 Gwasanaeth Ddiolchgarwch Capel Nebo

Hydref 9 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio, Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Hydref 22 Dydd Mawrth 12.15 Clinig 'Happy Feet' Neuadd Goffa

Hydref 23 Dydd Mercher 7.30 Lles Pryd Elusen, Tafarn y Rheilffordd

Hydref 24 Nos Iau 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen Tafarn y Rheilffordd

Hydref 27 Dudd Sul 1.45 Cymdeithas Daroganwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Hydref 27 Nos Sul 8.00 Cwiz Hollybrook 8.00

Tachwedd 23 Nos Sadwrn 7.30 'Meat Loaf Tribute Band' Neuadd Goffa Tocynau £10

Tachwedd 30 Nos Sadwrn 7.30 Elijah Côr Llanpumsaint Capel y Tabernacl

*Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri
I logi'r Neuadd Goffa, ffoniwch Arwel Nicholas ar 01267 281365*

Mali Lloyd

Tristawyd ardal gyfan yn dilyn marwolaeth Mali Lloyd, 2 Bryn Y Wawr ar Ddydd Mawrth 23 Gorffennaf. Priod ffyddlon y diweddar Vidi, mam annwyl Janis a'r diweddar William a Kathleen. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Ngapel Bethel ar Orffennaf 30 yng ngofal y Parchedig Cynwil Williams a'r organydd oedd Gwyn Nicholas.

Merch ei milltir sgwar oedd Mali. Llanpumsaint oedd yn bwysig iddi a bu'n byw ac yn rhedeg y swyddfa bost am flynyddoedd lawer ac fel 'Mali Post' roedd pawb yn ei hadnabod.

Roedd yn aelod gweithgar bron ymhob mudiad yn y pentref gan gynnwys y Cyngor Cymuned, Neuadd Goffa, Sefydliad y Merched, Cymdeithas Les, Capel Bethel a Chymdeithas yr Henoed. Yn wir Mali oedd Llais y Pentref. Un o wir gymeriadau'r pentref ac mi fydd colled enfawr ar ei hôl. Cydymdeimlwn yn fawr a'r teulu.

Neuadd Goffa

Bydd Sioe Ffasiwn ar ddydd Mercher 18^{ed} o Fedi am 7.30 y.h. gyda 'Nanette's Fashions and Accessories' yn Neuadd Goffa Llanpumsaint. Dewch i weld lansiad ei chasgliad Gaeaf gyda gwydraid o win neu ddiodysgafn, i ymlacio ac i fwynhau noson ddiddorol.

Mae tocynnau yn £5 yr un, o aelodau Pwyllgor y Neuadd ac o'r Siop. Neu gallwch brynu eich tocyn wrth y drws.

Am rywbeth hollol wahanol - ar ddydd Sadwrn 23^{ain} o Dachwedd yn y Neuadd Goffa am 7.30 y.h. mae noson yng nghwmni'r 'Meat Loaf Tribute Band, ynghyd â cherddoriaeth arall. Bydd bar trwyddedig. Dewch i'n cefnogi mewn noson o hwyl.

Mae tocynnau yn £10 yr un, o aelodau Pwyllgor y Neuadd ac o'r Siop. Neu gallwch brynu eich tocyn wrth y drws.

Clwbgwili 60+

Roedd cyfarfod misol Clwbgwili 60+, ar ddiwedd mis Gorffennaf fel arfer. Diolchodd Mr Peter Giles i Mr John Esau am roi darlith ddiddorol i aelodau'r clwb am Ymarfer Gweinidogaethol. Mae'r cyfarfod nesaf ar ddydd Llun 26^{ain} o Awst (Gŵyl y Banc) a'r siaradwr yw Mr Arwyn Thomas. Mae Val Giles yn trefnu trip dydd i San Ffagan ar y 20^{fed} o Awst. Bydd y bws yn gadael Neuadd Bronwydd am 9.00 y.b. ac yn dychwelyd i'r neuadd tua 8.30 y.h. Mae blaendal o £10 nawr yn cael ei gasglu ac mae rhai seddau ar ôl os oes diddordeb gan unrhyw un. Byddwn yn aros am bryd o fwyd ar y ffordd nôl.

Hefyd mae tocynnau nawr ar werth am £12 (i gynnwys pryd bwyd twym) ar gyfer y Cyngerdd Mawreddog sy'n cael ei gynnal yn Neuadd Bronwydd ar y 6^{ed} o Fedi. Bydd drysau yn agor am 6.30 y.h. a bydd y cyngerdd yn dechrau am 7.00 y.h. Bydd y pryd bwyd yn cael ei weini hanner amser. Y cantorion fydd Mr Clive Edwards o Hendy Gwyn ar Daf a Chôr Merched Glannau Gwendraeth.

Côr Llanpumsaint a'r Cylch

Ar hyn o bryd mae'r côr yn cael saib haeddiannol ar ôl cyfnod prysur iawn. Ar nos Wener Awst 2 2013 fe ymunodd y côr gyda Cherddorfa Gyngerdd Grampian o'r Alban mewn cyngerdd yn Theatr Halliwell ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Roedd hwn yn fenter newydd a bu yn lwyddiant mawr gyda'r elw yn mynd tuag at "Fragile X" Fe fydd yr ymarfer nesaf ar nos Iau Medi 5 2013 am 7.30 yr hwyr yng Nghynwyl Elfed. Ar Tachedd 30 2013 cynhelir Cyngerdd Blyneddol y côr yng Nghapel y Tabernacl, Caerfyrddin am 7.30 yr hwyr. Eleni fe fydd y côr yn perfformio'r "Elijah" gan Mendelssohn ac yn eu cynorthwyo fydd Ros Evans (Soprano) Rhian Williams (Mezzo Soprano) David Forte (Tenor) a Adam Gilbert (Bariton). Yr organydd eleni fydd Martin Jones o Gaerdydd ac fe fydd grwp llinynnol yn ei gynorthwyo. Os am fanylion pellach cysylltwch ac unrhyw aelod o'r côr.

Nebo

Awst - Cynhaliwyd Noson Ras Hwyaidd Nebo ar y 3ydd o Awst ym mharc y pentref. Cafwyd noson llwyddianus gyda Mr Mathew Jones o Dre Ioan yn ennill gyda Aled Evans, Blackbush, Nantgaredig yn 2il a Mrs Williams o Hendy Gwynn ar Daf yn 3ydd. Fe wnaeth hwyaden Mark Davies o Llangynnwr ddod yn olaf. Diolch I bawb am eich cefnogaeth.

Yn mis Medi mi fydd noson yng nghwmni Mrs Margaret Griffiths a Mrs Eira Skinner yn cael ei gynnal ar y 20fed yn Festri Nebo am 7 o'r gloch. Mynediad am ddim a Croeso cynnes I bawb. Mi fydd gwasanaeth o Ddiolchgarwch yn cael ei gynnal ar y 7fed o Hydref am 7 o'r gloch gyda Mr Ioan Evans o Gaerfyrddin yn gwasanaethu. Mi fydd swper cynhaeaf i ddilyn.

"Happy Feet" gyda 'Wellbeing Regeneration's Footcare Service'

Mae'r gwasanaeth torri ewinedd traed yn dod i Neuadd Goffa Llanpumsaint bob chwe wythnos. Mae'r sesiwn nesaf ar y 10^{fed} o Fedi am 12.15 y.p. ac yna ar y 22^{ain} o Hydref. Ffoniwch i archebu eich lle. Pris y sesiwn yw £8.50 ond mae angen taliad cychwynnol o £26.50 am bâr o glipwyr a rhathell eich hunan. Am wybodaeth ac archebu: 01554 744896 - oriau swyddfa 9.30 hyd 4.30 y.p. http://www.wellbeingregeneration.org.uk/cms/index.php?option=com_content&view=article&id=56&Itemid=18

Mobi Os y medrwch fod o gymorth cysylltwch a Carys 01267 221551

Cymdeithas Lleisant Adloniant Llanpumsaint

Mae'r ymddiriedolwyr yn cynnal Helfa Drysor ar ddydd Sul 1^{af} o Fedi. Ceir i adael maes parcio'r Neuadd Goffa rhwng 4.00 a 5.00 y.h. Cost car fydd £5. Bu Pam Jones yn gyfrifol am gynllunio'r daith.

Diwedd yr Helfa bydd Tafarn y Rheilffordd, Llanpumsaint lle bydd bwyd ar gael. Cyn i bob car adael y neuadd, bydd yn ofynnol i bob person ddewis eu bwyd o'r fwydlen i sicrhau nad oes unrhyw oedi pan meant yn cyrraedd y tafarn. Bydd dewis o 9 pryd bwyd.

Ar ddydd Mercher 23^{ain} o Hydref bydd y Gymdeithas yn cynnal pryd elusennol yn Nhafarn y Rheilffordd am 7.00 y.h. Mae tocynnau yn £12 y person ac mae'r tafarn yn rhoddi £5 i'r Gymdeithas am bob tocyn.

Pastai Stêc a Chwrrw gyda sglodion fydd y pryd, gyda phwdin yn opsiynol am bris dielw o £3. Y dewis yn grymbl afalau â chwstard, pwdin reis neu gacen gaws.

Dilynir y pryd gyda 'karaoke', arwerthiant a raffl.

Clwb Cant Llanpumsaint

Gwobr Gyntaf £20	Ail Wobr £10	Trydedd Wobr £5 (dau enillydd)
Mehefin 1 ^{af}	Rhif 95	Paul and Jo Davies
2 ^{il}	Rhif 45	Geraint Hughes
3 ^{ydd}	Rhif 6	Elfyn Lewis
	Rhif 31	Mathew Jones
Gorffennaff 1 ^{af}	Rhif 32	Hedydd Rees
2 ^{il}	Rhif 72	Manon Charles
3 ^{ydd}	Rhif 54	Pamela Jones
	Rhif 23	Arwel Nicholas

Mae pob gwobr yn cael ei roi drwy siec, cyn hir.

Tynnir enwau'r enillwyr yng nghyfarfodydd Cymdeithas Les & Adloniant Llanpumsaint bob dau fis. Tynnir enwau mis Awst a Medi yng nghyfarfod y 10^{fed} o Fedi. Mae 6 tocyn heb eu gwerthu ar gael i'w brynu. Cysylltwch â'r Trysorydd os oes gennych ddi-ddordeb. Derick Lock, 25352

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol y Clwb ar ddydd Iau 29^{ain} o Awst, 2013 am 8.00 y.h. yn Neuadd Goffa Llanpumsaint. Croeso i bawb.

Mae tymor 2013/14 yn dechrau ar ddydd Llun 2^{il} o Fedi - 7.30 i 9.30 y.h.- ac wedi hynny ar bob nos Llun ac Iau ar yr un amser.

Mae bob amser croeso i aelodau newydd, os ydych wedi chwarae bowlio mat byr o'r blaen neu beidio - mae gennym hyfforddwyr cymwysedig yn barod i'ch helpu. I ddechrau bydd y Clwb yn darparu bowls ar eich cyfer, ond mae angen esgidiau esmwyth gyda gwaelod gwastad neu sliperi arnoch.

Mewn hanfod rydym yn glwb gyda'i sylfaen yn y pentref ac yn griw cyfeillgar, felly pam na ddewch chi i weld? Am fanylion pellach cysylltwch â'r Cadeirydd Malcolm Howells ar 253207, neu'r Ysgrifennydd Derick Lock ar 253524.

Clwb Cerdded Llanpumsaint

11.00 y.b.dydd Sadwrn 14^{eg} o Fedi - mae'r daith yma yn dechrau ym Mhorthgain, Sir Benfro - SA62 5BN ac yna tua'r de ar hyd llwybr yr arfordir i Abereiddi. Yna, i ddychwelyd i Borthgain drwy lwybr mewndirol (cyfanswm o 4.2 milltir) gyda rhai mannau serth ond ar y cyfan yn daith hawdd. Mae'r ddau bentref yn grair o'r diwydiant mwyngloddio dwys yn y 19^{eg} ganrif gydag archaeoleg ddiwydiannol ddiddorol ar hyd y ffordd. Ym Mhorthgain y mae adfeilion hen sied beirannau a'r adeiladau a ddefnyddiwyd yn yr hen ddiwydiant briciau. Roedd y chwarel lechi wedi chwarae rhan fawr iawn yn ffyniant Porthgain. Er gwaethaf yr hanes diwydiannol, mae prydferthwch yr arfordir yn chwarae rhan flaenllaw yn y daith - taith heb ei hail. Wrth ddychwelyd i Borthgain, gallwn gael cinio yn Nhafarn y Sloop cyn ymweld ag orielau celf os ydych yn dymuno.

Ar y 5^{ed} o Hydref, bydd y daith yn agosach i adref - dechrau am 11.00 y.b. o Coopers yn Llanpumsaint i Nebo ac yna lawr drwy Goedwig Betws i Reilffordd Gwili. Byddwn yn dychwelyd i Lanpumsaint ar hyd y cledrau trê ac i orffen gyda diod yn Nhafarn y Rheilffordd. Byddwn yn aros am bicnic ar y ffordd. Mae'r daith yma yn bennaf ar hyd llwybrau, ond mae'r llwybr at Nebo yn gallu bod yn fwdlyd ac yn lÿb felly efallai hoffech wisgo esgidiau glaw.

Mae ein teithiau cerdded yn agored i bawb. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Carolyn ar 01267253308, info@gwilimill.co.uk

Cyngor Bro Llanpumsaint

Mae'r Cyngor Cymuned yn cyfarfod ar nos Fawrth gyntaf ym mhob mis (ac eithrio misoedd Rhagfyr ac Awst) am 8 yr hwyr yn y Neuadd Goffa ac mae pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd. Mae ein Clerc yw Phillip Jones, a gellir cysylltu ag ef ar 01267 253512, neu philko@yahoo.co.uk Roedd trafodaethau yng nghyfarfod yr 2^{il} o Orffennaf ynglŷn â:

- Gorlif carthffosiaeth yn dilyn y glaw trwm. Mae Dŵr Cymru yn ymchwilio problemau'r system, a byddant yn pennu pa welliannau fydd angen eu gwneud. Bydd y Cyngor Bro yn monitro'r sefyllfa yn y cyfamser ac yn ysgrifennu at Simon Hart.

- Cynlluniau Maes y Ffynnon - Sied Amaethyddol

- Cysylltiad Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa gyda'r Grid Cenedlaethol - bydd y cyngor yn ysgrifennu at 'Western Power Distribution' i ddweud dylai'r cysylltiadau i fod o dan ddaear. Bydd ymgynghoriad yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf.

Canlyniad Etholiad Diwrthwynebiad:- Elfed Davies, Danny Davies, Malcolm Howells, Dylan Jones, Arwel Nicholas, Wyn Thomas, Carolyn Smethurst.

Mae hen focs yr Heddlu erbyn hyn yn ddarn o bensaerniaeth enwog a chofiadwy, oherwydd iddo gael ei ddefnyddio gan y gyfres ffuglen wyddonol 'Dr Who', a ffurf hoffus ac adnabyddus arall yw'r hen flwch ffôn. Mae yna ddau flwch o'r math yma yn y Pentre' ac erbyn hyn y gymuned sydd eu piau, a gan nad oes ffôn yn yr un ohonynt bellach, mae angen meddwl am ddefnydd amgen iddynt. Awgrymwyd eisoes mae syniad da fyddai gosod 'Defibrillator' ynddynt, ond efalla fod gennyh syniadau gwell neu wahanol. Gosodwyd llyfrgell benthycyca mewn bocys a fabwysiadwyd gan gymunedau arall, blwch therapi goleuni (newid y gwydr arferol am wydr lliw) oedd cyfraniad y blwch mewn cymuned arall, a throswyd un arall i fod yn Ganolfan Gwybodaeth i Dwristiaid. Beth yw eich syniadau chi? Rhowch wybod i Glerc y Gymuned, pa ddefnydd yr ydych chi yn meddwl dylai gwneud ohonynt, ac yna trafodir y syniadau gan y Cyngor. (07891 733810)

Y Llwybr i Wellhad – Rhan 3 Bob Conyard

Gwnaeth y ddau ddiwrnod nesaf o'n taith beicio o Lundain i Baris, er mwyn cefnogi'r elusen 'Action Medical Research' droi allan i fod yn hollol wahanol i'r diwrnod cyntaf. Yn ne Lloegr fe wnaethom brofi tywydd garw, ynghyd â sŵn cynr ceir wrth yrwyr crac a oedd yn ystyried yr heol yn eiddo iddyn nhw yn unig. Yn sydyn ar ochr arall o'r Sianel Saesneg wnaethom ni gael ein hunain yn beicio yn yr heulwen a gwên i'w gael gan y gyrwyr Ffrengig.

Wnaeth ein tîm beicio 'elit' Cymraeg, ddechrau am ein gwesty yn Calais; yn fuan wnaethant sylweddoli eu bod yn teithio i lawr heolydd rhyfedd ac wrth ochr camlesi mewn ardal o gefn gwlad brydferth. Wnaethom deithio i'r de-ddwyrain o Ffrainc tuag at ein harhosiad nesaf a oedd yn nhre Arras. Teithiom drwy bentrefi bychain prydferth lle wnaeth y bobl leol chwifio'i breichiau a'n hannog ni ymlaen.... Wnaethom ddyfalu a oeddent yn credu ein bod ni yn rhan o'r 'Tour de France'. Yn raddol wnaethom feicio i fyny'r brynau hyd nes i ni gyrraedd y copa lle welsom y plac a oedd dweud wrth ymwelwyr am y brwydrau erchyll a oedd yn yr ardal yma yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn anffodus erbyn amser cinio roedd Tina yn gorfod stopio beicio am y dydd oherwydd bod ei braich wedi chwyddo. Felly'r syniad oedd iddi i orffwys... Ond mewn gwirionedd roedd hi'n helpu'r rhai gwan yng nghefn y grŵp, wrth roi ei holl gefnogaeth.

Heb oedi gwnaeth fy mab a minnau feicio ymlaen, ond yn stopio i dalu ein dyledion wrth y Beddau Rhyfel wrth i ni feicio heibio. Roedd yn brofiad dwys wrth sylweddoli bod gymaint o bobl gyffredin wedi rhoi eu bywydau yn y rhyfel o 1914-18, er mwyn i ni gael ein rhyddid. Teimlais falchder bod y safleoedd yma'n cael eu gwerthfawrogi.

Mae beicio yn Ffrainc yn brofiad gwahanol iawn i feicio yn Sir Gar. Mae'r caeau mawr o lafur, tato ac India-corn wedi'u rhannu gyda lonydd cul. Mae cloddiau o amgylch y pentrefi i gadw'r gwartheg i mewn. Mae'r golygfeydd yn eang ac ysblennydd gan greu ymdeimlad cryf o ryddid a thawelwch. Gan fy mod yn un o'r beicwyr cyntaf i gyrraedd Arras, roedd rhaid aros nifer o oriau cyn i Tina gyrraedd gyda'r rhai gwanaf. Wnaethom dreulio ein hamser aros gyda pheint o gwrw wrth i ni rannu rhai o'n profiadau gyda beicwyr arall, yn sgwâr addurnedig Arras. Wnaeth hyn oll gael ei ailadrodd pan wnaeth Tina ddal i fyny.....Diwrnod dau yn gyflawn!

Gyda thua 185 milltir wedi'u gwblhau gwnaethom ddechrau o Arras gan basio drwy fwy o Feddau Rhyfel a drwy fwy o heolydd gwledig troellog nes cyrraedd 'One Tree Hill'. Cafodd 'One Tree Hill'ei enw oherwydd dyma'r unig goeden o'r goedwig gyfan a wnaeth oresgyn yr ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd hi mor anodd i ddychmygu'r golygfeydd mor hudol a godidog mewn safle o gyfrinachau o drueni a marwolaeth.

Am unwaith roedd Tina'n teimlo'n dda ac yn gymharol ddi-boen....ac yna....gefais innau broblem gydag olwyn ôl y beic. Nid oedd yn bosib i'r peiranyddion ei drwsio; edrychais i ar Tina, edrychodd Tina arna i. Gan nad oedd Tina wedi gallu cyflawni diwrnod llawn o feicio ac roeddwn i yn benderfynol i feicio bob milltir, rhoddodd Tina ei olwyn ôl i mi. Golyga hyn fod Tina yn ôl yn y wagen yn ceisio annog y rhai olaf eto. Roeddwn i'n teimlo'n euog am tua hanner awr ond yna yn ôl i'r pleser o feicio mewn rhan mor brydferth o Ffrainc. Aeth dechrau'r prynhawn yn eithaf cyflym wrth i ni dreulio llawer o amser yn mynd i lawr y brynau serth. Wnaethom ni hyd yn oed gael y

plerer o gael diod oer ym mhentref Tabac gan gwrdd â beicwyr arall a oedd wedi cael yr un syniad. Wrth i bawb deimlo'n fodlon wnaethom ni gyd anghofio'r rheol aur... 'what goes down, must come up'. Wrth i ni barhau gyda'r daith, yn ein cyfarch oedd rhiw a oedd mor serth a diddiwedd! Yn y diwedd cyrhaeddod ni'r gwastatir a oedd uwchben ein harhosiad nesaf, tref a elwir Compeigne. Wrth gyrraedd y dref gwelsom siop feiciau a cheisiais fy ngorau i esbonio, yn fy Ffrengig/Saesneg gorau'r darn coll oedd angen ar fy meic; ond heb lwc. Gan deimlo'n siomedig wrth gerdded i mewn i'r gwesty, roeddwn yn ddiolchgar i'r peirianwyr gan eu bod wedi dod o hyd i olwyn a allwn i fenthyg ar gyfer y diwrnod olaf. Golyga hyn bod Tina a minnau yn gallu beicio gyda'n gilydd tuag at ben y daith. Paris.....3 diwrnod lawr, 260 milltir wedi'u gwblhau. I barhau.....

Cymdeithas Daroganwyr Gorllewin Cymru

Mae cyfarfod gennym ym mis Awst ac mae gennym ddwy alldaith: Dydd Sul, 11^{eg} o Awst i'r Gwŷr a Dydd Sul, 8^{fed} o Fedi i Gaerleon a'r Olion Rhufeinig. Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Ddydd Sul, Medi 22^{ain} am 1:45 y.p. yn Neuadd Bronwydd. Y siaradwr bydd Megan Wingfield, awdur 'The Grail Journey through Wales'. Bydd Megan yn esbonio ei chredoau bod y Forwyn Fair gyda Joseff o Arimathea, wedi ymweld â Chymru wedi marwolaeth yr Iesu. Cred aelod diweddar a oedd yn ddaroganwr naturiol iddo olrhain ei thaith drwy Gymru i'r Ynys Sanctaidd.

Mae darogan yn grefft ddefnyddiol a diddorol gall bron unrhyw un eu dysgu. Dywed ei bod yn deillio o'r Aifft neu hyd yn oed ynghynt mewn hanes. Mae nifer o gwmnïau yn defnyddio doniau rhai daroganwyr profiadol i chwilio am ddŵr, mwynau, olew, ceblau trydan ayyb. Mae rhai yn gwirio am straen daearegol yn ei amgylchedd; cred bersonol yw hyn sydd heb gael ei brofi yn wyddonol hyd yn hyn.

Pam na ddewch chi ddydd Sul i brofi am eich hun? Mae mynediad yn £4 y person gan gynnwys paned o de a bisgedi. Does dim offer yn angenrheidiol, dewch a'ch hunan.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch a'n gwefan:<http://www.westwalesdomsers.co.uk/>

Neu drwy ffonio Sandy ar 01267 253547.

Ysgol Llanpumsaint

Pleser yw cyhoeddi newyddion cyffroes yr ysgol sef genedigaeth Anest Mai, merch annwyl ein athrawes babanod Mrs Meinir Davies. Llongyfarchiadau mawr i Mr a Mrs Davies.

Llongyfarchiadau mawr i Robyn Weldon a ddaeth yn ail am lefaru unigol i ddysgwyr Bl 3 a 4 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Moncath, a hefyd i ddisgyblion Bl 1 a 2 a ddaeth yn ail am wehyddu.

Ar brynawn braf ar y 12fed o Orffennaf, cynhaliwyd Mabolgampau a Ffair Haf yr ysgol ym mharc y Pentref. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd rhan yn y gweithgareddau hwylus. Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni am drefnu'r Ffair Haf llwyddiannus.

Dymunwn pob lwc i ddisgyblion blwyddyn 6 sef Emma Meyers a Carys Slade wrth iddynt ffarwelio â Ysgol Gynradd Llanpumsaint i fynychu Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth ym mis Medi.

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion am y gwasanaethau am fisoedd Medi a Hydref 2013

Medi 8 2013	Mr Arwyn Pearce	Cymundeb am 10.30 o'r gloch
Medi 22 2013	Prifardd Tudur Dylan	Gwasanaeth am 2 o'r gloch
Hydref 6 2013	Parch Goronwy Wynne	Cymundeb am 2 o'r gloch
Hydref 20 2013	Gwasanaeth Diolchgarwch	Manylion pellach i ddilyn.

Os am fanylion pellach cysylltwch a Mr Danny Davies (Trysorydd) 01267 253418 neu Mr Gwyn Nicholas (Ysgrifennydd) 01267 253686

Capel y Bedyddwyr Caersalem, Llanpumsaint

“Cyhoeddwn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd”

Dydd Sul: 10.00am Ysgol Sul I Oedolion (Cymraeg)
2.00pm Oedfa Bregethu (Cymraeg) Sul ofa'r mis - Oedfa Saesneg

Dydd Mawrth 1.00pm Dosbarth Beiblaidd Dwyieithog yn ein chwaer Eglwys Penuel

Dydd Iau 2.00pm Cwrdd Gweddi

Rhifau Cyswllt Mrs Eleri Morris 01267 253895

Eglwys Llanpumsaint

Dymuna wardeniaid a swyddogion Eglwys Llanpumsaint estyn eu diolch i bawb a gefnogodd y bore coffi a gynhaliwyd yn nechrau mis Gorffennaf ac hefyd i bawb a brynnodd dudalen cwis ac a enwodd y Tedi. Ennillwyd y cwis gan Marlene Wareham ac fe roddwyd y wobr yn garedig gan Mr a Mrs Dorrien Thomas. Enw'r tedi oedd Gwion ac fe ennillwyd ef gan Peter (y Ficer). Rhoddwyd y Tedi gan Oliver Evans a'i Fab, Cyfarwyddwyr Angladdau ac fe gafodd yr enw ei ddewis gan Don James yn Osborne Davies y Seiri Maen.

Mae Cwrdd Gweddi Boreol yn y Ficerdy am 9.30 y.b. ar ddydd Llun, Mawrth a Mercher yn ystod y gwyliau ysgol.

Neges oddi wrth Offeiriad y Plwyf

Dywed Iesu 'By their fruits you shall know them'. Yma, mae Iesu yn sôn am y ffordd yr ydym ni yn gwahaniaethu rhwng gwir Gristnogion a'r rheini sy'n arddel eu bod yn Gristnogion, ond mewn gwirionedd, yn byw ar gyfer eu hunain yn unig.

Mae'r efengyl am drawsnewid. Nid yn unig am roi ein holl ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist i gael iachawdwriaeth, ond am i'r Iesu fod yn Arglwydd ar bob agwedd o'n bywydau. Y ffrwythau mae Iesu yn trafod, yw'r cariad cynyddol am Dduw a'n gilydd, cynyddu haelioni, canmol eraill a rheoli ein tafodau (mae'r Beibl yn dweud; byddwn ni yn berffaith os allwn reoli ein tafodau.)

Sancteiddrwydd, gweddi, cyfeillach â chredinwyr eraill o deulu'r eglwys, a cheisio'r Arglwydd a'i deyrnas uwchlaw bob peth. Gofynnwn i'r Arglwydd i'n llenwi gyda ffrwythau Ei gariad, llawenydd, heddwch, amynedd, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, tynerwch, gostyngeddwrwydd a hunanreolaeth. Bendith arnoch. Peter

Gwefan :- llanpumsaintparish.org , 01267 253205 neu E-bost:- vicar@llanpumsaintparish.org

Tywyddgall Awst 2013

Ochenaïd oedd yr ymateb wrth iddi fwrw glaw yn ystod haf llynedd, ond eleni bron i fwyafrif o boblogaeth y Gymuned gyfarch y glaw pan syrthiodd y diferion cyntaf tua diwedd mis Gorffennaf; prin yw rheidrwydd dyfrhau gerddi pridd trwm Llanpumsaint, ond oni bai am y 'watrîn can', fydde blodau a llysiau'r garddwyr wedi gwywo eleni!

Ni fu cymaint cyfnod o dywydd heulog i wneud cynhaeaf gwair a silwair ers llawer blwyddyn bellach; dywed rhywrai fod chwe blynedd wedi mynd heibio ers teimlo cymaint o wres yr haul ac efallai bod hynny'n wir, ond ni ellir gwadu bod haf go iawn wedi bod yn ystod 2013; mae'r 'Farmers Tan' yn dystiolaeth o wres wnaeth godi i uchelfannau'r 20au gradd Celsius! Mantais i ddolydd pridd trwm y dyffryn oedd y gwres; dyma gaeau all dyfu glaswellt hyd yn oed pan nad oes glaw, oherwydd natur dal gwlybanaeth pridd cleiog. Mantais bu eleni i'r borfa ac nid i'r brwyn sydd wedi bod yn ymosod ac ennill tir dros y degawd diwethaf. Cri a glywir yn aml erbyn hyn yw; 'ma brwyn yn tyfu 'da fi eleni mewn caeau na weles i nhw erioed o'r blaen', ac efallai bod peth bai ar ein cyndeidiau wnaeth ddefnyddio brwyn fel sarn ac nid gwellt. Pan fydde'r dom yn cael ei wasgari ar y caeau gwair yn y Gwanwyn, fydde yna filoedd o hadau brwyn yn cael eu lledaenu hefyd, ac mi fyddent yn gorffwys yn amyneddgar yn y pridd tan i'r amodau tyfu delfrydol ymddangos, sef pridd dwrlawn, chwerw. Mi fydd gwres haf 2013 wedi bod cystal a chwynladdwr i ffermwyr a thyfwyr sydd yn rhyfela yn erbyn y gelyn dygn!

Cyflawnder y Cwm

Nid y tywydd yn unig, sydd yn wahanol eleni ond hefyd cyflwr safle yr hen orsaf, lle y saif adeilad y Ffarmers Co-op. Oddi ar i Soames Plants rhoi'r gorau i ddefnyddio'r safle fel Planhigfa, aeth y lle yn ddi fywyd ac anial ond bellach, mae Gyngor Sir Gâr wedi cynnig y lês i'r gymuned, ac mae yna drawsnewidiad wedi digwydd; yn hytrach na pholytwnelau llwyd difywyd, maen't erbyn hyn yn wyrddlas o lysiau o bob math. Nid yn unig twnelau sydd yn tyfu cynhaliaeth, ond mae yna welyiau pridd wedi eu gosod ar dir gwastad wrth ochr y fynedfa a thu hwnt, sydd yn gorlifo o fresych, pys, ffa a thato; cinio Dydd Sul penigamp!

Er fod yna llawer mwy o waith i'w wneud ar y safle; gan fod y fenter nawr wedi ymaelodi â Ffederasiwn Ffermydd Dinas a Gerddi Cymunedol (Llanpumsaint yw'r 100fed aelod!) byddwn yn elwa o'r arbennigedd sydd gan y Mudiad, oherwydd byddant yn gallu ein cynorthwyo i ddofi'r anialwch a'i wneud yn ardal ffrwythlon, i'n galluogi i ychwanegu ffrwythau ac eirin i'r fwydlen iach a lleol.

Ffurfiwyd Pwyllgor ar frys llynedd oherwydd bod angen creu corff ac iddo gyfansoddiad, ac felly, mae'n rhaid i ni gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol cyn diwedd y flwyddyn ac er nad oes dyddiad wedi ei benodi eto, os hoffai rhywun ymuno â'r Pwyllgor gan fod un o'r aelodau gwreiddiol am ymddiswyddo, rhowch ddisgrifiad byr ohonnoch, a rheswm paham yr hoffech gynnig am ymuno, i Steve Merritt neu fi.

Phil Jones (philkto@yahoo.co.uk) Steve Merritt (sjorganics@btinternet.com)

Cysylltiadau Heddlu

Dyma eich Swyddogion Bro lleol: Inspector , Steve Lee; PS 943, Mark McSweeney; PC 711, Gareth Thomas; PCSO8046, Martin Dickenson.

Gallwch gysylltu â nhw trwy ffonio rhif 101di-frys yr Heddlu neu trwy'r e-bost CarmarthenTownNPT@dyfed-powys.pnn.police.uk

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Llanpumsaint

Mae'n eithaf syml - os ydych yn siopa ar y We cofrestrwch unwaith gyda

www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta

<<http://www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta>>. Wedyn bob tro fyddwch yn siopa ar y we ewch i'r Wefan "Your favourites" a bant a chi.

Gellwch arbed arian gyda "easyfundraising" hefyd, oherwydd dewch ar draws gynigion rhatach yno. Felly byddwch yn ein helpi ni ac yn arbed arian yr un pryd. Cewch fwy o fanylion oddiwrth Sarah 253412.

Beiciau Mynydd ar Gael 6 beic mynydd i'w llogi am ddim. Ceir manylion pellach ac allweddi'r sied yn y siop.

Egluro rhai ymadroddion Seisnig

Yn yr hen ddyddiau byddai'r pair yn hongian yn feunyddiol uwch ben y tân. A phob dydd ychwanegwyd rhywbeth arall i'r cawl, llysiau yn bennaf gan fod cig yn brin. Wedi i bawb gael ei fasnied o gawl cedwid y gweddill gan ychwanegu ato drannoeth. Felly mi allai'r bwyd fod yno am dipyn o amser, ac yn ôl un chwedl, dyna tarddiad y rhigwm --

Peas porridge hot peas porridge cold, peas porridge in the pot nine days old.

Beth bynnag, yn y Gymraeg daeth *Cawl eildwym a chawl twymo* i ddynodi ail adrodd..

Gan fod cig yn brin i'r werin ystyrir dyn oedd yn gallu *Bring home the bacon* yn gyfoethog. Ac o dorri ychydig bant a rhannu darnau i'w cnoi gyda chymdogion daw'r ymadrodd *Chew the fat*, yn ôl chwedl arall.

Gallai'r rhai ariannog fforddio plate wedi eu gwneud o biwter. Honnid fod bwyd sur yn achosi'r plwm i ollwng ar y bwyd ac achosi marwolaeth drwy wenwyno. Gan iddynt gredu fod y tomato yn debygol o achosi hyn, caeth ei gyhuddo o fod yn wenwynllyd am ganrifoedd..

Rhannwyd y bara yn unol â statws y rhai wrth y bwrdd. Felly'r gweision gai'r darn llosg ar y gwaelod, y canol i'r teulu, ond y rhan uchaf i'r pwysigion a'r gwesteion - mewn geiriau eraill yr *Upper Crust*.

Defnyddid cwpanau plwm i yfed cwrw neu chwisgi, a gallai'r cyfuniad peryglus hwn wneud yr yfwr yn anymwybodol am ddyddiau yn ôl y son. Gallai eraill feddwl fod y person wedi marw felly gosodwyd y corff ar fwrdd y gegin am beth amser. Ymgasglai'r teulu o amgylch i yfed a bwyta gan ddisgwyl canfod a oedd y corff am ddihuno. Felly'r arfer o *gynnal gynlmos* neu yn Iwerddon *holding a wake*.

Un adeg pan aeth safleoedd mewn mynwentydd yn brin aeth yn arferiad i gloddio eirch a chadw'r esgyrn er mwyn cael ail ddefnyddio'r bedd. Darganfuwyd ôl crafu y tu mewn i ambell i arch a drwgdybiwyd fod rhai trueiniaid wedi eu claddu yn fyw. Felly clymwyd corden am arddwrn y corff a'i gysylltu i gloch uwchben y ddaear, a dewiswyd rhywun i aros ger y bedd dros nos - y *graveyard shift*. Felly gallai rhywun byw yn y bedd gael ei arbed gan y gloch, *saved by the bell* (defnyddir yr ymadrodd yma yn y byd bocsio hefyd pan fod y gloch ar ddiwedd y rownd yn arbed rhagor o boen i rywun dan bwysau). Honnir i'r ymadrodd *dead ringer!* fod hefyd yn gysylltiedig yma.

Faint o wirionedd a faint o gelwydd golau sydd yn hyn oll? Chi sydd i benderfynu!

Priodas Dda???

Noson dawel a thywyll oedd hi, a chan ei bod wedi troi hanner nos, roedd ychydig o drigolion pentre' bychan Llanpumsaint yn glyd yn eu gwelyau. Yna yn sydyn torrwyd ar y distawrwydd gan lin darddan garnau ceffylau yn carlamu dros y ffordd garegog heibio'r eglwys. Yn ei wely clywodd hen ffermwr y Llandre hwy'n mynd heibio ond dewisodd aros dan ei flanced. Thala hi ddim i ymyrryd yng ngweithgareddau'r tywyllwch yn yr oes beryglus honno ar gychwyn y 18fed ganrif.

Petai o wedi codi i fusnesa byddai wedi clywed y ceffylau yn aros yn sydyn ger tyddyn Rhydybont wrth droed yr afon Cerwyn gerllaw. Yno bu taro cyson ag uchel ar y drws nes yn y diwedd dihunwyd yr hen ffeirad o'i drwmgwsg meddw. Wedi iddo sobri ddigon sylweddolodd beth oedd ar droed, cais iddo gynnal priodas gudd ar fyrder. Gwrthod gwnaeth e' ar y cychwyn ond yr oedd y cildwrn yn ei demtio'n fawr. Wedi carlamu'r holl ffordd o Geredigion y noson honno yr oedd yr ymwelwyr yn weddol sicr o'u dyn. Yn fuan iawn cytunodd y ffeirad gan fod lliw'r arian yn fodd hawdd i leddfu ei ddibyniaeth ar y ddioid.

Felly yng ngolau gwanlyd y gannwyll adroddodd James Tanner, gwas cyffredin i deulu'r uchelwyr Cornwallis, ei addunedau i Jane Lloyd, etifeddes ystâd ei diweddar fam, sef Green Grove, yn nyffryn Aeron Ceredigion. Wedi i'r tystion anhysbys fwydo a dwrhau'r ceffylau cychwynnodd y fintai ar eu hunion am adref. A chyn i'r wawr dorri cyraeddasant yn ôl i gartref Jane yn Maesyfelin a chymerodd y pâr ifanc yn gyfreithlon at eu gwely. A dyna i chi stori serch rhamantus gyda diweddglo hapus i gynhyrfu unrhyw nofel ysgafn. Nage wir!

Yn anffodus aeth pethau yn drychinebus o chwith. Er bod James mewn cariad dros ei ben a'i glustiau gwyddai o'r cychwyn am y peryglon o garu y tu hwnt i'ch ystâd. Yn yr oes honno disgwyliad i ferched y Gwŷr Mawr ufuddhâi i'w tad a phriodi er lles yr Ystâd a'r teulu. Ffwlbri dwl oedd meddwl am ddewis cymar drwy deimladau cariadus. Gan iddo sylweddoli hyn oll gwrthodai James y gwas ildio i ddyheadau Jane am briodi, ac felly y bu nes i'r ferch fygwth lladd ei hun os nad oedd ei chariad am ei chymerid. Ildiodd yn y diwedd ac felly cynlluniwyd y daith ramantus liw nos i Lanpumsaint bell. Ond shwt o'n nhw'n gwybod am yr offeiriad amheus a hwythau mor bell i ffwrdd? Ni wyddom, ond rhaid bod yna rhyw gysylltiad yn rhywle.

Pan ddarganfu Charles Lloyd, tad Jane a pherchennog ystâd Maesyfelin, beth oedd wedi digwydd, aeth yn benwan. Gan ei fod ef ei hun wedi ail briodi a bellach yn dad i ddau fab, yn ddau etifedd i Maesyfelin, ei obaith oedd y byddai Jane yn aros yn ddibriod. Felly deuai Green Grove hefyd yn rhan o'r etifeddiaeth i'w feibion. Ar wahân i hynny tase Jane yn digwydd priodi byddai ef yn trefnu cymar ariannog beth bynnag er lles yr ystâd. Bu ei ymateb yn ffyrnig o greulon. Cipiwyd James Tanner gan weision Lloyd a'i orfodi i'r fyddin i wasanaethu fel milwr cyffredin yn Fflandrys. Am Jane druan yr oedd gwaeth i ddilyn. Perswadiodd ei thad Esgob Tyddewi i ddiddymu'r briodas drwy apêl i Balas Lambeth. Yna gorfododd ei ferch i werthu Green Grove iddo am £700 gan ddefnyddio'r arian fel gwaddol i briodi Jane i gyfreithiwr yng Nghaerfyrddin.

Ni wyddom beth ddigwyddodd rhwng yr Esgob a'r Ficer druan yn Rhydybont (safle'r Ficerdy' r adeg hynny yn yr 18edganrif), ond efallai mai hen ddyn y Llandre ddaeth allan ohoni orau wrth guddio dan ei flanced.

Clywais y stori hon gyntaf gan Hedydd Rees Bro Celynin, tystiolaeth ar lafar gwlad, gan i'w deulu honni o ardal Dyffryn Aeron. Daeth manylion pellach o lyfr gwych a chynhwysfawr Gerald Morgan ar hanes Ceredigion, ac yna ychydig ymchwil lleol. Arwyn 2013

Village Voice August 2013

Copy Date for next Edition 30th September 2013

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

What's On in the Village in the next few months – put these dates in your diary

Every Tuesday Zumba 6.30 – 7.30 Memorial Hall

Every Wednesday Mobi 5.30 – 7.30 Outside Memorial Hall

Third Monday each month 7.30 Merched yr Wawr Memorial Hall

Second Monday each month Bronwydd Ladies Guild, Bronwydd Hall

August 22 Thursday 7.00 Curry and Quiz, Railway Inn £5 per head

August 25 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook

August 26 Monday 2.00 Afternoon Barbecue Railway Inn

August 29 Thursday 8.00 AGM Llanpumsaint and Nebo Short Mat Bowling Club Memorial Hall

September 1 Sunday 4.00 – 5.00 Treasure Hunt from Memorial Hall

September 2 Monday 7.30 Start of Bowling Season

September 3 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

September 5 Thursday 7.30 Llanpumsaint Choir Practice Cynwyl Elfed

September 6 Friday 7.00 Grand Concert 60+ Club Bronwydd Hall Tickets £12

September 7 Saturday 7.00 Jazz Night with Dinner Gwili Railway £32.50

September 10 Tuesday 12.15 Happy Feet Clinic Memorial Hall

September 11 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn - to book phone 253643

September 14 Saturday 11.00 Walk from Porthgain

September 14 Saturday 7.00 Murder Mystery Evening with Dinner Gwili Railway £32.50

September 18 Wednesday 7.30 Fashion Show Memorial Hall Tickets £5

September 19 Thursday 7.00 Curry and Quiz, Railway Inn £5 per head

September 20 Friday 7.00 Nebo Vestry

September 22 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Society Bronwydd Hall

September 29 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook

October 1 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

October 4 Friday 6.00 Harvest Festival Llanpumsaint Church

October 4 Friday 7.45 Church Harvest Supper Memorial Hall Tickets £10

October 5 Saturday 11.00 Walk from Coopers, Nebo Railway

October 7 Monday 2.00 60+ club Bronwydd Hall
October 7 Monday 7.00 Thanksgiving Service Nebo Chapel
October 9 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – to book phone 253643
October 22 Tuesday 12.15 Happy Feet Clinic Memorial Hall
October 23 Wednesday 7.30 Welfare Association Charity meal, Railway Inn
October 24 Thursday 7.00 Curry and Quiz £5.00 Railway Inn
October 27 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Society Bronwydd Hall
October 27 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn
November 23 Saturday 7.30 Meat Loaf Tribute Band Memorial Hall Tickets £10
November 30 Saturday 7.30 Elijah Llanpumsaint Choir Tabernacle Chapel.

Llanpumsaint and Ffynnon Henry Memorial Hall
To book the hall, phone Arwel Nicholas on 01267 281365

A Tribute to Mali Lloyd

The whole area was saddened with the death of Mrs Mali Lloyd, 2 Bryn y Wawr on Tuesday 23rd of July. She was the faithful wife of the late Vidi, dear mother of Janis and the late William and Kathleen.

The funeral service was held in Bethel Chapel on the 30th July with the Reverend Cynwil Williams officiating, and Gwyn Nicholas on the organ.

Mali was a girl of her square mile. Llanpumsaint was important to her. She lived in and ran the Post Office for years, and many people knew her as Mali Post.

She was involved with many organizations in the village, including the Community Council, Memorial Hall, W.I., Welfare and Recreation Association, Bethel Chapel, and the Senior Citizens Association. In many ways Mali was the 'Village Voice'. One of the great characters of the village, she will be greatly missed.

We very much sympathise with her family and friends.

Memorial Hall

Fashion Show on Wednesday 18th September at 7.30, with Nanette's Fashions and Accessories in Llanpumsaint Memorial Hall. Come and see the launch of her winter collection with a glass of wine or soft drink, and enjoy an interesting and relaxing evening. Tickets are £5 each from the Hall Committee members, at the Village Shop, or at the door on the night.

Now for something completely different – At the Memorial hall on Saturday 23rd November at 7.39pm an evening with Meat Loaf Tribute band, and supporting Music. Licensed bar. Come and support us for this Fun Evening. Tickets £10 each from the Hall Committee members, at the Village Shop, or at the door on the night.

MOBI Wednesday Evenings 17:30 – 19:30 outside Memorial Hall

The Mobi project has been extremely busy with attendance reaching 20 – 25 young people. For more information, **please contact Carys 221551**

Clwbgwili 60+ Club

